**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 28 Chwefror 2017 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cyng. Dewi Owen- Cadeirydd
Y Cyng. Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd

Y Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Brian Bates (Bad Achub), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Llyr Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| William Stockford | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau |
| Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi), Mr James Bradbury-Willis (Siambr Fasnach Aberdyfi)

Fel mater o drefn o ran aelodaeth, adroddwyd y deallwyd nad oedd Siambr Fasnach Aberdyfi yn bodoli mwyach ac oni ddylid cywiro'r rhestr sefydliadau ar y rhaglen.

Mewn ymateb, adroddodd y Swyddog Cefnogi Aelodau y byddir yn anfon at yr oll sefydliadau/ mudiadau ym mis Mai i wneud cais am gyfansoddiadau / cofnodion cyfarfodydd blynyddol, a.y.b. ac y byddai modd bryd hynny cywiro'r rhestr.

1. **CYDYMDEIMLO**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at brofedigaeth a ddaeth i ran Mr Dave Williams, cynrychiolydd Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi ar y pwyllgor hwn, drwy golli ei wraig yn ddiweddar. Mynegwyd cydymdeimlad dwysaf gyda Mr Williams a gofynnwyd i bawb sefyll fel arwydd o barch tuag ato a'u deulu yn eu colled drist.

2. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 15 Tachwedd 2016.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies, yn diweddaru'r pwyllgor ar faterion rheolaethol yr Harbwr gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(a) Cod Diogelwch Morwrol**

Nodwyd bod y cod diogelwch yn ddogfen fyw a phwysigrwydd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar y cynnwys fel y gall gael ei adolygu ac bod y ddogfen yn berthnasol i weithgareddau'r Harbwr. Tynnwyd sylw bod y Gwasanaeth yn disgwyl adolygiad gan arbenigwr allanol Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ond oherwydd diffyg capasiti staffio nid oedd hyn wedi digwydd ac fe fyddir yn ail-drefnu maes o law.

Cyfeiriwyd at lansiad Ymgyrch Neifion a oedd wedi ei gynnal yn ddiweddar yn Ysgol Tywyn yn dilyn adroddiadau fod beicwyr môr yn aflonyddu a phoeni dolffiniaid oddi ar arfordir Abersoch a Thywyn.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd Aelod bryder nad oedd swyddogion ac Aelodau yn ymwybodol o ddigwyddiadau lleol ac y dylid sicrhau gwell cyfathrebu rhwng Adrannau i'r dyfodol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod ac y byddai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn dilyn y pryder i fyny gyda'r Adran berthnasol.**

(b) **Mordwyo**

Adroddwyd bod bwi'r "Fairway" wedi dod oddi ar ei safle yn dilyn storm "Doris" yn ddiweddar a sicrhawyd y byddir yn anfon Rhybudd i Forwyr yn ddi-oed ac y byddai trefniadau i'w gwneud gyda'r contractwr lleol i'w osod yn ôl ar y safle.

Ychwanegwyd bod cymhorthydd ar y morglawdd yn ardal Tywyn i'w roi yn ôl ar safle ond y byddai'n ofynnol sicrhau bod y llanw a'r tywydd yn dderbyniol i gyflawni'r gwaith.

Yn gyffredinol, er gwaethaf y tywydd garw yn ystod storm "Doris" 'roedd y cymhorthyddion eraill yr harbwr ar eu safleoedd priodol, er hynny, byddir yn sicrhau bod pob cymhorthydd sydd allan o safle yn cael eu ail leoli cyn 1 Ebrill 2017.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(c) **Cynnal a Chadw**

Amlinellodd yr Harbwr Feistr ar y gwaith a gyflawnwyd dros y gaeaf sef:

- Pont y Brics
- Atgyweirio o gwmpas yr Harbwr
- Atgyweirio ochr y Gerddi wrth ymyl Swyddfa'r Harbwr
- Gosod bariau / rhwystrau ar ochr y promenâd i atal y tywod ddod drosodd

Gobeithir glanhau'r llithrfa'r Bad Achub cyn dechrau'r tymor ynghyd â manion eraill gan sicrhau bod popeth yn barod erbyn Gwyliau'r Pasg.

Apeliwyd ar Aelodau'r Pwyllgor hwn i gysylltu gyda'r Harbwr Feistr ar faterion gweithredol fel bod llif y gwaith yn rhedeg yn esmwyth.

Derbyniodd y Gwasanaeth air o ddiolch gan gynrychiolydd ar ran Clwb Cychod Aberdyfi am y gwasanaeth a dderbynir gan swyddogion yr Harbwr.

(ch) **Materion Staff**

(i) Adroddwyd bod cytundeb Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (tymhorol) wedi ei ymestyn ar drefniant tri diwrnod yr wythnos hyd at ddiwedd Mawrth 2017 yn hytrach na symud staff ac sydd wedi profi'n gost effeithiol. Bwriedir cyflogi dau Gymhorthydd Harbwr (1 ym Mhorthmadog ac 1 ar gyfer Aberdyfi / Tywyn) yn llawn amser o'r 1 Ebrill ymlaen a fydd yn cael ei gyllido o gyllideb y Gwasanaeth Morwrol.

(ii) Bwriedir ystyried cyflogi Cymhorthydd Traeth yn Aberdyfi dros yr Haf o gyllideb y Gwasanaeth a fydd oddeutu £4,000 ac efallai edrych ar bosibiliadau o ddenu arian o ffynonellau lleol eraill. Rhagwelir byddai'r Gwasanaeth yn cysylltu gyda'r Cyngor Cymuned er ceisio cefnogaeth cyllidol lleol.

(iii) Awgrymwyd ymhellach oni fyddai'n bosibl cyflogi myfyriwr ar benwythnosau a thymor y gwyliau o ddechrau Gorffennaf i Fedi.

(iv) Canmolwyd gwaith y Cymhorthyddion Traeth a thra'n derbyn nad oedd yn wasanaeth achub bywyd roedd eu gwaith yn fodd o fedru cynnig gwybodaeth leol a sicrwydd i unigolion a gwelir eu cyflogi yn fantais enfawr. Roedd y Cymhorthyddion Traeth o gymorth hefyd i'r Harbwr Feistr i fedru ei ryddhau o orfod ymdrin â materion ar y traeth megis plant methu dod o hyd i'w rhieni ar ôl bod yn y môr, cymorth cyntaf, a.y.b.

(v) Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod yn rhaid ystyried y mater yn ehangach a'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod diogelwch yn flaenoriaeth gan gofio bod cyfnod o adolygu a newidiadau o ran toriadau cyllidebol, a.y.b.

(vi) O safbwynt arwyddion diogelwch yr Harbwr a'r traethau, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad o'r holl arwyddion yn Abermaw mewn ymgynghoriad gyda'r Bad Achub. Roedd yr adolygiad hwn wedi rhoi sylfaen o safbwynt cynnal adolygiad yn Aberdyfi a Thywyn sydd i'w gynnal ym mis Mawrth / Ebrill ac yn dilyn hyn gellir pwyso a mesur yr anghenion ynghyd â'r costau. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod a fyddai'r arwyddion mewn lle ar gyfer y tymor hwn, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymhellach bod yn rhaid trafod addasrwydd yr arwyddion, cysondeb yng nghyd-destun traethau eraill y Sir, costau cynnal a chadw'r arwyddion, a.y.b. ond sicrhawyd y byddir yn cysylltu gyda'r Aelodau lleol yn fuan yn dilyn cynnal yr adolygiad yn Aberdyfi i drafod ymhellach.

(vii) Ategodd sawl Aelod bwysigrwydd i osod arwyddion addas ar y safle ac y dylid gweithredu yn ddi-oed ar gyfer y tymor hwn.

(viii) Mewn ymateb, ychwanegodd cynrychiolydd o'r Bad Achub y byddai'n gwthio'n galed i weithredu'r uchod gan fod dyluniad sylfaenol yr arwyddion wedi eu trafod, ac ni ragwelai pam na ellir ei weithredu'n fuan. Nododd ymhellach bod presenoldeb y Cymhorthyddion Traethau ar y traeth am y tymor twristiaeth yn unig ond bod arwyddion yno i'w gweld drwy'r amser a phe byddir yn cael arwyddion gwell, teimlwyd y byddai hyn yn fanteisiol ar gyfer addysgu unigolion o gyfrifoldeb am ddiogelwch.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ddiweddaru Aelodau'r Pwyllgor hwn ynglŷn â datblygiad yr adolygiad arwyddion traethau.**

(d) **Materion eraill**

(i) Wal y Cei

Derbyniwyd diweddariad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar yr uchod gan nodi bod trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru o safbwynt yr elfen amgylcheddol a hyderir y byddai'r Gwasanaeth yn gallu

cyflwyno cynllun busnes i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth. Pwysleisiwyd bod y Cyngor wedi adnabod 25% o gostau'r cynllun hwn.

Mynegwyd siom gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned nad oedd y caniatâd cynllunio hyd yma wedi ei gadarnhau ond o safbwynt edrych i'r dyfodol nodwyd bod y cynlluniau mewn trefn a bod amrywiol gamau i'r broses sydd eisoes i'w trefnu. Nodwyd ymhellach nad oedd unrhyw bryder ynglyn â'r cais cynllunio ond bod pryder ynglyn â dyfodol ariannu rhaglenni Ewrop yn sgil Brexit.

Mewn ymateb i bryder y Cadeirydd ynglyn â'r amser yn llithro a dirywiad yn strwythur wal y cei, eglurodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod gwaith monitro ar y wal yn digwydd a sicrhawyd bod oddeutu 5 mlynedd yn weddill o oes i'r strwythur pe byddai'r rhaglen yn llithro hyd at 2020. Tra'n derbyn bod y strwythur yn dirwyn i ddiwedd ei oes, cadarnhawyd bod angen buddsoddiad yn y tymor byr / canolig ac felly bod ychydig o amser wrth gefn. Roedd y datblygiad yn un ehangach nid yn unig ar gyfer isadeiledd yr Harbwr ond hefyd ar gyfer atal llifogydd.

O safbwynt pryder amlygwyd gan aelod bod cyflwr oddeutu 95% o anodau'r strwythur wedi dirywio yn arw, sicrhawyd bod y gwaith hwn i'w gyflawni o fewn y cynllun gwaith.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyfleu pryder y Pwyllgor Ymgynghorol ynglyn a'r oediad mewn prosesu'r cais Cynllunio.**

**(ii) Tir Comin / tir ystorfa, gwastraff**

Adroddwyd bod yr uchod yn parhau yn broblemus i'w ddatrys oherwydd diffyg contractwyr lleol i ymgymryd â'r gwaith clirio. Disgwylir am amcan bris gan gwmni o Gaernarfon ac yn y cyfamser roedd y Gwasanaeth yn ceisio am brisiau ar gyfer gosod ffens uchel a giât sydd i'w gyllido o gyllideb y Gwasanaeth. Byddai hyn yn galluogi i fedru cael rheolaeth gadarn dros y tir.

Siomedig ydoedd nodi nad oedd cydweithrediad gan y pysgotwyr o ystyried bod cymaint o offer pysgota ar y safle sydd heb eu symud ers blynyddoedd lawer. Bydd yn rhaid parhau i geisio eu cydweithrediad ac erfyn ar gynrychiolydd y pysgotwyr i drafod hyn gyda'r pysgotwyr fel mater brys.

Ategodd y Cadeirydd ei fod yn bryd i roi ffens i fyny a hyderir y byddai hyn yn atal unigolion rhag gwaredu gwastraff ar y safle.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Gwasanaeth Morwrol barhau gyda'u hymdrechion i ddatrys y broblem o glirio'r safle a gosod ffens o amgylch y tir.**

(f) **Symud Tywod**

Adroddwyd y bydd contractwr yn cychwyn ar y gwaith o symud tywod diwedd mis Mawrth.

Mewn ymateb i ymholiad Mr Des George, ynglyn â faint o'r tywod a fyddir yn symud, a sicrwydd bod trafodaethau gyda'r Clwb Golff, addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n holi'r swyddog perthnasol ac yn adrodd yn ôl.

Nodwyd ymhellach bod y lefelau traeth yn newid yn sylweddol.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodir' uchod.**

(g) **Materion Ariannol**

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy'r fantolen ariannol gan nodi fel a ganlyn:

- bod tanwariant o £6,075 yng nghostau staff
- bod tanwariant o £8,000 yng nghostau tiroedd ac eiddo
- bod tanwariant o £50 yng nghostau cwch a cherbydau
- bod tanwariant o £1,200 yng nghostau offer a chelfi
- bod targed yr incwm yn fyr o £8,000

Yn gyffredinol roedd y sefyllfa ariannol yn edrych yn addawol ond rhaid cofio bod oddeutu £12,000 yng nghyllideb Aberdyfi o gyllideb ychwanegol ac efallai i'r dyfodol y bydd angen ei ddiddymu o'r gyllideb er defnydd ar gyfer gwariant o dan bennawd arall.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

(ng) **Ffioedd a thaliadau 2017/18**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydd chwyddiant ar gyfer 2017/18 yn parhau yn 1.85% ac i gwrdd â tharged incwm awgrymir cynyddu'r ffioedd 2% ar gyfartaledd. Bwriedir cynyddu ffioedd angori cychod masnachol i 6%.

Tynnwyd sylw bod ffi wedi ei ychwanegu gan Stad y Goron sydd yn hawlio £25 gan bob unigolyn sydd ag angorfa yn yr Harbwr a gofynnir i'r Cyngor, fel awdurdod yr Harbwr, gasglu'r ffi hwn ar ran Stad y Goron.

Nododd yr Harbwr Feistr ei fod wedi cysylltu gyda chwsmeriaid a hyd yn hyn mai dim ond 2 oedd wedi datgan nad oeddynt yn adnewyddu'r hawl i angori.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

## 5. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>

**Penderfynwyd:** **Er bod y cyfarfod nesaf wedi ei bennu ar gyfer 10 Hydref 2017, gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau ail-drefnu dyddiad ar ddyddiad cyfleus ym mis Tachwedd gan y byddai'n amserol o ran cyflwyno adroddiadau cyllidol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 11.45 a.m.

**CADEIRYDD.**